Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Linda Jones**

**Bangor**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi ol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Medi 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | *Nac ydy. Mae'r gwasanaeth yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.* |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| Llesiant | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| Gofal a Datblygiad | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| Yr Amgylchedd | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| Arwain a Rheoli | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |

## Crynodeb

***Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19.***

Mae'r plant yn fodlon eu byd; maent yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd ac yng nghwmni'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd. Maent yn mynegi eu hunain yn dda yn unol â'u hoedrannau a'u camau datblygu. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau amrywiol, sy'n sicrhau bod y plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu a'u bod yn mwynhau eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn garedig, yn ofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyried eu hanghenion a'r hyn sydd orau ganddynt. Mae'r safle yn lân, yn ddiogel ac yn darparu lle a chyfleusterau addas i'r plant ddatblygu a chwarae. Mae'r gwarchodwr plant wedi dilyn canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch pandemig COVID-19, ac mae wedi cymryd camau priodol i leihau'r risg bosibl i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl mewn perthynas â rheoli'r gwasanaeth, yn gwneud newidiadau i wella arferion ac mae wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Maent yn gyfforddus yn gwneud dewisiadau, am eu bod yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Er enghraifft, pan fydd y plant wedi cael digon o chwarae gêm, byddant yn dweud wrth y cynorthwyydd yn hyderus eu bod am wneud rhywbeth arall a chaiff eu dewis ei barchu. Bydd y plant yn helpu eu hunain i ddiod o ddŵr pan fyddant yn sychedig a rhoddir byrbryd iachus o ffrwythau iddynt i'w fwyta pan fydd chwant bwyd arnynt rhwng prydiau.

Caiff teimladau ac anghenion y plant eu cydnabod am fod cydberthnasau da wedi cael eu meithrin gyda'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd. Er enghraifft, caiff y plant fwythau pan fydd angen sicrwydd arnynt a byddant yn dal dwylo'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn naturiol pan fyddant yn dewis gwneud hynny. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod eu plant yn rhedeg at y gwarchodwr plant pan fyddant yn cyrraedd a gwnaethant gadarnhau bod eu plant wedi setlo'n dda yn ei gofal.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dangos parch tuag at ei gilydd. Maent yn mwynhau cwmni ei gilydd ac yn chwarae'n gwrtais gyda'i gilydd, gan rannu digon o wenau a chwerthin. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau a, phan ofynnir iddynt, maent yn helpu i dacluso'r teganau cyn symud ymlaen i weithgaredd arall. Mae'r plant yn garedig tuag at ei gilydd ac yn helpu eu ffrindiau i wisgo eu hesgidiau cyn mynd allan i chwarae.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Maent yn dangos brwdfrydedd, maent yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn symud yn rhydd rhwng gweithgareddau, gyda rhai yn dewis chwarae dan do ac eraill y tu allan yn yr awyr iach. Dan do, mae'r plant yn nodi gwrthrychau gwahanol ar gardiau fflach ac yn llawn cyffro wrth ddweud stori am rywbeth y maent wedi'i brofi wrth weld y lluniau gwahanol. Yn yr awyr agored, bydd dathliadau pan fydd y plant yn creu swigod yn y gegin fwd neu'n dod o hyd i anifail yn yr hambwrdd archwilio. Cânt amser i ymlacio pan fyddant yn gwrando ar stori yn y gornel dawel a bydd pob un ohonynt yn arddangos eu sgiliau cerddorol gan chwarae offerynnau wrth iddynt ganu i gân Cymraeg.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau gwahanol drwy archwilio ac ymgysylltu ag amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn cyfansoddi eu halawon eu hunain ar yr allweddell ac yn dysgu sut i ddal pêl yn yr awyr agored. Bydd y plant sy'n penderfynu profi eu sgiliau corfforol yn gwenu pan fyddant yn dringo'r ysgol i'r sleid yn ddiogel neu'n defnyddio'r ffrâm/bloc dringo lefel isel ar eu pen eu hunain. Mae eu sgiliau iaith Cymraeg a Saesneg yn datblygu'n dda drwy'r sgyrsiau a gânt â'i gilydd, y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd. Mae'r plant yn deall y drefn ddyddiol ac nid ydynt yn oedi cyn defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd adref.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn deall eu rolau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi COVID-19 priodol ar waith a gwnaethant esbonio yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai ganddynt bryderon diogelu am blentyn. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn cadw llygad ar y plant sy'n cysgu bob 15-20 munud ac yn cadw cofnodion i ddangos yr arfer hwn. Gwelsom fod eu tystysgrifau cymorth cyntaf yn gyfredol felly gellid rhoi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Caiff cofrestrau presenoldeb dyddiol eu cwblhau, ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau a digwyddiadau, os oes angen. Bydd y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni os bydd plentyn yn cyrraedd gydag anaf. Er enghraifft, roeddent wedi tynnu llun o anaf a gafodd plentyn yn yr ysgol ac anfon neges at y rhieni ar unwaith gyda'r wybodaeth. Ni roddir meddyginiaeth ar hyn o bryd a gofynnir i'r rhieni gadw eu plentyn gartref os bydd yn sâl. Mae'r rhieni yn darparu pecynnau cinio i'w plentyn, ac mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn cynnig dŵr i'w yfed a byrbrydau iachus o ffrwythau. Mae'r drefn ddyddiol yn cynnwys treulio cymaint o amser ag y gallant yn yr awyr agored, gan roi cyfleoedd i'r plant gadw'n heini. Cynhelir ymarferion tân bob mis fel bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn parchu'r hyn y maent yn ei ddweud. Maent yn eistedd ochr yn ochr â'r plant, gan siarad â nhw'n dawel wrth iddynt chwarae. Maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn canmol y plant am eu cyflawniadau ac yn diolch i'r plant sy'n helpu pan ofynnir iddynt. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn gwneud yn siŵr bod gan y plant ddigon i'w wneud i'w cadw'n brysur, gan arwain at ryngweithio cadarnhaol a phlant hapus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dewisiadau. Er enghraifft, gadewir i'r plant gysgu yn ôl yr angen. Cedwir cofnodion o gerrig milltir dysgu'r plant mewn llyfrau datblygu unigol, ac mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn gwneud yn siŵr bod gweithgareddau yn amrywio er mwyn cynnal diddordeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn ymateb; maent yn cofleidio'r plant yn reddfol ac yn sychu trwynau sy'n rhedeg fel sydd ei angen. Gwnaethant ymgysylltu'n dda â'r plant drwy gydol ein hymweliad, gan siarad â nhw a gwneud yn siŵr fod ganddynt yr hyn roedd ei angen arnynt a'u bod i gyd yn hapus.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn gwneud yn siŵr bod y safle yn ddiogel ac yn lân. Er enghraifft, roedd y drysau ar glo pan wnaethom gyrraedd, a gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod, llofnodi'r llyfr ymwelwyr a defnyddio'r hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn. Mae rhestr wirio diogelwch ddyddiol ysgrifenedig, asesiadau risg a chofnod glanhau adnoddau dyddiol yn dangos bod y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn ymrwymedig i gynnal amgylchedd diogel a glân. Cafodd eitemau a oedd yn peri risg posibl i'r plant eu storio'n gyflym mewn cwpwrdd dan glo yn ystod ein hymweliad. Roedd asesiad risg COVID-19 wedi cael ei gynnal yn dangos sut roedd y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn rheoli heintiau posibl ac yn eu dileu lle y bo modd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal i'r plant mewn safle / amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion. Defnyddir y llawr gwaelod ac ardal chwarae awyr agored ddiogel. Mae'r ystafell chwarae yn olau, yn llachar ac yn lân ac mae'n darparu digon o le i'r plant symud o gwmpas a mwynhau eu profiadau chwarae. Mae'r gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored wedi'u gosod yn dda, a gall y plant ddewis teganau ac adnoddau eu hunain. Mae cornel gysurus yn galluogi'r plant i ymlacio neu wrando ar stori yn yr ystafell chwarae. Caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo gan gyfleusterau megis sinc lefel isel a stôl camu yn y toiled ar y llawr gwaelod. Mae gwaith crefft lliwgar y plant a arddangosir ar waliau'r ystafell chwarae a'r baneri Cymru roedd y plant wedi'u lliwio i ddathlu Cymru yn nhwrnamaint yr Euros yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Er enghraifft, caiff y plant iau eu strapio'n ddiogel mewn cadair uchel i fwyta byrbryd ac mae bwrdd a chadeiriau lefel isel ar gyfer gweithgareddau grŵp. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r teganau a'r offer o ansawdd da, yn ddigonol ac yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Er enghraifft, gallant chwarae mewn ffordd ddychmygus yn y gegin fwd yn yr awyr agored, defnyddio teganau reidio i ymarfer sgiliau mwy corfforol, neu eistedd yn dawel a darllen. Mae cymysgedd priodol o ddeunyddiau cynaliadwy a synhwyraidd; er enghraifft, blociau adeiladu pren, cyfleoedd chwarae â dŵr (sy'n cael eu newid yn rheolaidd er mwyn rheoli croesheintio posibl) a deunyddiau i greu swigod.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn gweithio gan gadw sylw a gofal dyledus er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol a'r rheoliadau. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn ai peidio. Er bod y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nid ydynt yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru yn llawn am fod y polisïau a'r gweithdrefnau ond ar gael yn Saesneg ar hyn o bryd.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn cydweithio'n dda er mwyn gwella canlyniadau i'r plant. Er enghraifft, maent wedi diwygio polisïau a gweithdrefnau, diweddaru asesiadau risg a phrynu teganau a chyfarpar newydd ers yr arolygiad diwethaf. Mae eu hadolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys cyfeiriad at farn y rhieni a'r plant, a chaiff eu hadborth ei ystyried hefyd. Er enghraifft, maent bellach yn cwblhau dyddiaduron unigol bob dydd i'r plant fynd â nhw adref. Gwnaeth y rhieni y gwnaethom siarad â nhw ganmol y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd, gan gadarnhau eu bod yn cael gwybod am newidiadau, eu bod yn fodlon ar y gofal a roddir a'u bod wedi argymell y gwarchodwr plant i ffrindiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Mae'n gwneud yn siŵr bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi ei hun, ei chynorthwyydd a'i theulu yn gyfredol. Mae ffeil staff y cynorthwyydd yn gyflawn ac mae'n cadw cofnod o'u cyfarfodydd. Dywedodd y cynorthwyydd wrthym eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod arferion cyfredol a'u bod yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen er mwyn gwella canlyniadau i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol cyfredol a dywedodd y ddau wrthym eu bod yn mwynhau gofalu am y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Maent wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Maent yn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnynt ganddynt am anghenion eu plant, a'r hyn sydd orau ganddynt, cyn iddynt ddechrau. Gwelsom y rhieni yn cael amser i siarad â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd pan wnaethant gasglu eu plant ac roeddent yn hapus i glywed bod eu plentyn wedi mwynhau ei hun. Dywedodd y cynorthwyydd wrthym ei fod yn trafod datblygiad y plant â'r rhieni ac yn annog y rhieni i gefnogi gwaith dysgu eu plant gartref. Er enghraifft, roedd y plant wedi bod yn dysgu lliwiau gwahanol, a gofynnwyd i'r rhieni helpu gyda'r pwnc hwn gartref gyda'u plant.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Dim

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod ei chofrestr presenoldeb dyddiol yn dangos pryd mae'n bresennol yn y gwasanaeth yn gywir a'i bod yn cofnodi nifer ac oedrannau'r plant sy'n bresennol. Rheoliad 30(1)(a) | Rheoliad 30 (1) (a) |
| Rheoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”): Datganiad o ddiben: | |
| Rheoliad 25 (c) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”): Peryglon a diogelwch: | |
| Rheoliad 29 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”): Cyflogi staff: | |
| Rheoliad 30 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”): Cadw cofnodion: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi